| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 12 Mehefin 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis / Bob Chowdhury – Prif Archwilydd Mewnol |
| **Awdur yr adroddiad** | Bob Chowdhury, Prif Archwilydd Mewnol |
| **Teitl** | Asesiad Archwiliad Allanol Archwilio Mewnol 15 Ebrill 2024 |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn darparu Adroddiad Asesiad Archwiliad Allanol Archwilio Mewnol a gyflwynwyd ar 15 Ebrill 2024 ar gyfer tîm Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych. Gellir cwblhau'r asesiad allanol un ai trwy:

- Asesiad allanol llawn, neu
- Hunan-asesiad mewnol wedi'i ddilysu gan adolygwr asesiad allanol.

1.2. Fel aelod o'r Grŵp Prif Archwilwyr Cymru, rydym wedi cytuno i fabwysiadu'r dull hunanasesu, gydag aelod arall o'r Grŵp yn cyflawni dilysiad annibynnol. Wrth gwblhau'r hunanasesiad, rhannwyd y wybodaeth gyda'r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol yng Nghyngor Sir Ceredigion a gwblhaodd yr asesiad allanol a darparodd adroddiad.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn nodi "Rhaid i asesiadau allanol gael eu cynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan aseswr annibynnol cymwys neu dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad. Rhaid i'r Prif Weithredwr Archwilio, sydd, yn achos Sir Ddinbych yn Brif Archwilydd Mewnol, drafod gyda'r bwrdd:

- ffurf ac amlder asesiadau allanol.

- cymwysterau ac annibyniaeth yr aseswr allanol neu'r tîm asesu, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau posibl."

2.1. Mae asesiad allanol wedi cael ei gyflawni yn 2023-24 gan Gyngor Sir Ceredigion ar sail adolygiad gan gymheiriaid, wedi 'i drefnu trwy'r Grŵp Prif Archwilwyr Cymru ac mae'r adroddiad wedi'i atodi fel Atodiad 5.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Mae'r Pwyllgor yn ystyried y camau gweithredu o fewn yr Asesiad Sicrwydd Ansawdd Allanol Archwiliad Mewnol ac yn monitro'r cynnydd a wneir i gwblhau'r camau gweithredu a chydymffurfio'n llawn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Roedd yr adolygiad asesiad allanol yn cadarnhau bod tîm Archwilio Mewnol Sir Ddinbych yn cyflawni cydymffurfiad cyffredinol gyda mwyafrif y safonau. Mae'r Tîm Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â 45 o Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, yn cydymffurfio'n rhannol â chwech, ac nid yw'n cydymffurfio â phump.

4.2. Y meysydd o ddiffyg cydymffurfio o ran yr Asesiad Ansawdd Allanol Archwilio Mewnol yw:

- 1300 Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwelliant;
- 1310 Gofynion y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwelliant;
- 1321 Y defnydd o gydymffurfiad â Safonau ar gyfer Ymarfer Proffesiynol "Archwilio Mewnol";
- 1322 Datgelu diffyg cydymffurfio; a
- 2430 Y Defnydd o "Ymddygiad mewn cydymffurfiad â Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol Archwilio Mewnol"

4.3. Y meysydd o gydymffurfio'n rhannol o ran yr Asesiad Ansawdd Allanol Archwilio Mewnol yw:

- 1000 Diben, Awdurdod a Chyfrifoldeb;
- 1210 Hyfedredd a Gofal Proffesiynol Priodol;
- 1320 Adrodd ar y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwelliant;

- 2010 Cynllunio;
- 2120 Rheoli Risg; a
- 2421 Gwallau a Hepgoriadau.

4.4. Yn dilyn yr Asesiad Allanol, mae'r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol wedi llunio Cynllun Gweithredu sydd wedi ei drafod a'i gytuno gyda'r Prif Archwiliwr Mewnol ar gyfer Sir Ddinbych. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys argymhellion y bydd y Prif Archwiliwr Mewnol angen eu gweithredu er mwyn newid y diffyg cydymffurfiad / cydymffurfiad rhannol i gydymffurfiad llawn dros y 18 i 24 mis nesaf.

4.5. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae tri o'r argymhellion diffyg cydymffurfio wedi cael eu datrys ac mae'r ddau sy'n weddill ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau erbyn diwedd Mehefin 2024.

4.6. Nid yw'r chwe argymhelliad cydymffurfiad rhannol mor hawdd eu datrys, ac ar adeg llunio'r adroddiad hwn, mae dau wedi'u cwblhau ac mae'r pedwar arall ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau o fewn 12 i 24 mis.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Rôl Archwilio Mewnol yw darparu sicrwydd o ran digonolrwydd ac effeithlonrwydd fframwaith llywodraethu'r Cyngor, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae pob un o'r meysydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn gallu darparu ei holl flaenoriaethau corfforaethol fel y nodwyd yn ei gynllun corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Mae'r camau i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaethau perthnasol a pholisïau'r Cyngor yn cael eu cymryd o fewn y cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â Phennaeth Cyllid ac Archwilio a bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Cabinet yn adroddiad chwarterol Gorffennaf ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn y diweddariad chwe mis ym Medi.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Y risg yw na fydd y Prif Archwiliwr Mewnol yn mynd i'r afael â'r holl gamau gweithredu a nodwyd, ni fydd Tîm Archwilio Mewnol Sir Ddinbych yn cydymffurfio'n llawn â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Eir i'r afael â'r camau gweithredu dros y 18 i 24 mis nesaf gan nad ellir cwblhau'r camau hyfedredd a gofal proffesiynol priodol yn gynt.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Amherthnasol – nid oes angen gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r adroddiad hwn.